## ATODLEN 2

Erthyglau 3(3), (4) a (5), 4(4)

Glanhau a diheintio cyfrwng cludo

**Lefel y glanhau a'r diheintio**

**1.** Rhaid gwneud yr holl lanhau a diheintio er mwyn lleihau cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, y perygl o drosglwyddo'r clefyd.

**Y rhannau o'r cyfrwng cludo y mae angen eu glanhau**

**2.**—(1) Yn achos anifeiliaid nad ydynt yn cael eu cludo mewn cynhwysydd—

(a) rhaid glanhau'r canlynol os ydynt wedi eu baeddu ai peidio: holl wynebau mewnol y rhannau hynny o'r cyfrwng cludo y cludwyd yr anifeiliaid ynddynt, a phob rhan o'r cyfrwng cludo y mae'n bosibl bod yr anifeiliaid wedi cael mynd ati yn ystod y daith; a

(b) rhaid glanhau'r canlynol os ydynt wedi eu baeddu—

(i) unrhyw ffitiadau datodadwy nas defnyddiwyd yn ystod y daith,

(ii) unrhyw ran arall o'r cyfrwng cludo, a

(iii) unrhyw gyfarpar.

(2) Yn achos anifeiliaid a gludwyd mewn cynhwysydd, rhaid glanhau'r tu mewn i'r cynhwysydd p'un a yw wedi ei faeddu ai peidio, a rhaid glanhau'r tu allan i'r cynhwysydd ac unrhyw rannau o'r cyfrwng cludo sy'n cario'r cynhwysydd os ydynt wedi'u baeddu.

(3) At ddibenion erthygl 3, rhaid i bob rhan o gyfrwng cludo y mae'n ofynnol ei glanhau gael ei diheintio hefyd.

**Y dull glanhau**

**3.** Rhaid glanhau drwy symud ymaith unrhyw borthiant y mae'r anifeiliaid wedi cael mynd ato, unrhyw sarn (llaesodr), unrhyw garthion ac unrhyw ddeunyddiau eraill sy'n tarddu o anifeiliaid, unrhyw laid ac unrhyw halogion eraill drwy ddefnyddio unrhyw gyfrwng priodol, a glanhau wedyn â dŵ r, stêm neu, pan fo'n briodol, gemegau neu gyfansoddion cemegol (neu, os bydd angen, unrhyw gyfuniad o'r rhain) nes cael gwared ar y baw.

**Y dull diheintio**

**4.** Rhaid i bopeth y mae'n ofynnol ei lanhau o dan y Gorchymyn hwn gael ei ddiheintio ar ôl gorffen ei lanhau, drwy ddefnyddio diheintydd a gymeradwyir o dan Orchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) 1978(**1**) yn ôl y crynodiad sy'n ofynnol o dan y gorchymyn hwnnw ar gyfer “Gorchmynion Cyffredinol”.

(**1**) O.S. 1978/32, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1978/934.